

Cofion

- Gyda thristwch mawr y daeth y newydd ddechrau'r wythnos am farwolaeth Geraint Davies, Ty'n y Mynydd, Llansannan. Wrth ei golli, sylweddolwn y bwlch mawr fydd ar ei ôl i'w deulu, ac yn y gymuned hefyd gan iddo gyfrannu'n helaeth i fywyd yr ardal. Cyflwynwn ein cydymdeimlad cywiraf i Eva, Dawn, Darryl a'r teulu oll. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Morfudd Davies a Lowri Taylor (Llansannan), y ddwy ohonynt yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Treuliodd Gwilym Roberts (Llansannan) ychydig ddyddiau yno hefyd, ond bellach mae ef a Megan Evans (Llansannan) wedi cael dychwelyd adref. Mae Barbara Williams a Menna Streeter (Henllan) yn parhau'n yr Inffirmari a chofiw'n am eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn hefyd. Cyflwynwn bob un ohonynt yn dyner iawn i ofal yr Arglwydd gan weddio y cânt adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt.
- Bu i'r Henaduriaeth neithiwr gydnabod cyfraniad gwerthfawr Mr Howell Jones (Nantglyn) a fu'n flaenor am 50 mlynedd, a hefyd Mr David Ll. Williams (Llanefydd), yntau yn flaenor ers 40 mlynedd. Diolchwn ninnau yn gywir iawn i'r ddau am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd ac anfonwn ein cofion cynhesaf a'n llongyfarchion iddynt.
- Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Heulwen Thomas (Llansannan) ar ddatlu ei phen-blwydd yn 90 oed y penwythnos yma!

Ar Osod

Tŷ Capel Saron - cegin fwyta, ystafell fyw, 2 lofft, gwres canolog olew ynghyd â tân agored. Lle parcio a gardd. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Helen (01745) 550327 neu rhiwlasuchaf@lineone.net Dyddiad cau: Gorffennaf 7fed.

I ddod

- **Cwrs hyfforddiant ar y thema Gofal Cristnogol** o dan arweiniad y Parch Euros Wyn Jones yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. Tri sesiwn: Gorffennaf 7fed (Y Seiliau), 14eg (Adeiladu'r Eglwys), 21ain (Agweddau Ymarferol). Croeso i bawb.
- Cynhelir **Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr** yng Ngherrigydrudion nos Lun, Gorffennaf 11eg. Bydd tair cystadleuaeth: Bl.2,3 a 4; Bechgyn Bl. 5+6; a Merched Cynradd. Enwau i Anne Lloyd (01490 420589) erbyn Gorffennaf 8fed.
- Cacen a phaned yn Heulfryn, Llansannan dydd Sadwrn, Gorffennaf 16eg rhwng 3.00 a 5.30 i **Ddathlu Priodas Arian Meirion a Sarah Morris**. Croeso i bawb. Dim anrhegion ond os nad ydych chi wedi cael cyfle i gyfrannu i Apêl y Cartref Cariadus, mae croeso i chi wneud hynny. Mwy o fanylion yr wythnos nesaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Gorffennaf 2011

Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274)
neu Hafwen (813445) cyn nos
Fawrth, os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da iawn i bawb a chroeso i Sul arbennig *i-Grist*. I Grist bo'r clod a'r mawr heddiw a chanu iddo fydd ein braint a'n llawenydd yn ystod y dydd!

Dewch i roi croeso i Martyn Geraint y bore ma! Mae'n adnabyddus iawn i'r plant ac i genedlaethau o rieni. Bydd eitemau arbennig yn ystod y gwasanaeth a da fydd cael mynd am bicnic hefo'n gilydd wedyn i'r Brenig os bydd y tywydd yn caniatáu! Dwi'n meddwl yr af fi a brechdan sbar hefo fi rhag ofn imi weld dafad ar y topie 'na â golwg llwglyd arni(!) – dydyn nhw heb fod yn yr ardd yr wythnos yma!! Diolch ichi am bob cyngor doeth a dderbyniais yn ystod yr wythnos.

Yn yr Oedfa o Fawl, byddwn yn troi at yr hen a'r newydd. Mae rhai o'r emynau hyn yn wirioneddol ogoneddus gan eu bod yn mynegi ein profiadau ysbrydol mor gryno a llawn. Diolchwn am waith yr Ysbryd yng nghalonau'r emynwyr ac am fod gennym ninnau, yn yr Arglwydd Iesu, yr un testun i'n moliand ac i'n cân. Iesu ei hun a'i waith yw testun caniadau'r nefoedd a'r cwbl a wnawn heddiw ydi ceisio ymuno yn yr addoliad tragwyddol yna sydd yn cael ei roi i'r Iesu yn y nefoedd. Un o'r rhaglenni teledu y byddwn yn ei gysylltu hefo Martyn Geraint ydi 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'. Dim ond megis dechrau rydym ni mewn gwirionedd ar y canu – dewch i fwynhau'r addoliad! Dyma dystiolaeth Martyn amdano'i hun:

"Fel mae rhai ohonoch chi'n gwybod - rydw i'n Gristion (does dim rhaid ichi fod yn Gristion i gyflwyno Dechrau Canu – ond dwi'n meddwl ei fod e'n helpu) – ac yn ogystal â 'ngwaith i ar y teledu neu ar lwyfannau Cymru – dwi hefyd yn athro Ysgol Sul ac yn arwain clwb ieuencid yn fy nghapel i ym Mhontypridd – Capel Coedpenmaen. Ac mae'n rhaid dweud taw fy ffydd i a 'mherthynas gyda Duw, Iesu a'r Ysbryd Glân sy'n effeithio mwyaf ar fy mywyd erbyn hyn.

Dwi ddim yn pregethu bob tro dwi'n cwrdd â phobl newydd cofiwch – felly peidiwch poeni – ond dwi'n trio dangos trwy fy mywyd fod gen i ryw beth arbennig iawn sy'n fy nghadw i'n llawn hyder a llawenydd!

On ddi ddim yn sant o bell ffordd cofiwch – a dwi dal i wneud smonach o bethau weithie ac yn teimlo tyndra R. Williams Parry'n aml:

"Rwy'n wych, rwy'n wael - rwy'n gymysg oll i gyd".

I fi mae 3 chwestiwn i'w hateb:

1 - Oedd 'na ddyn o'r enw Iesu'n bodoli ?

2 - Ddaeth e nôl yn fyw ar ôl cael ei groeshoelio ?

3 - Trwy farw - wnaeth e dalu'r pris am fy mhechodau i ?

Dwi'n ateb yn bositif i'r 3 – ac yn ddiolchgar – ond dwi'n deall fod rhai pobl yn ffeindio fe'n anodd credu mewn rhywbeth 'dyn nhw ddim yn medru gweld, cyffwrdd na phrofi."

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma



i-Grist

Oedfa'r bore i'r teulu cyfan,
ond yn arbennig i blant holl eglwysi'r Ofalaeth,
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

am 10:30

gyda

Martyn Geraint

Bydd y plant lleiaf hefyd yn canu fel un côr y penillion y bu iddynt ddysgu ar gyfer yr Arholiad Llafar. Ar ôl yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu. *(Os na fydd y tywydd yn ffafriol, mae trefniadau wedi eu gwneud i fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.)*

Oedfa o Fawl

Oedfa'r hwyr i holl eglwysi'r Ofalaeth
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

am 6:00

*Oedfa o fawl hefo'r gorau o'r hen a'r newydd hefo Steffan yn arwain y band.
Dewch i fwynhau canu i'r Arglwydd gân o'r newydd*

- | | |
|-----------|---|
| Mawrth | • Cyfarfod Gweddi'r Fro yn Groes am 7.30. |
| Mercher | • Cwrs hyfforddiant i flaenoriaid ac aelodau eglwysi'r Henaduriaeth yn Nhrefnant am 7.00. Y thema y tro hwn fydd 'Strwythur / Yr Oedfa'. |
| Iau | • Y cyntaf o dri sesiwn hyfforddiant ar y thema Gofal Cristnogol dan arweiniad y Parch Euros Wyn Jones yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. 'Y Seiliau' fydd thema'r cyfarfod cyntaf. Croeso i bawb. |
| Sul nesaf | • Cynhelir Oedfa'r Fro yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa. |

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul nesaf Bydd y Parch John Barnett yn arwain oedfa fedydd yng Nghapel Soar am 10.00 pryd y bydd Eirian a Mathew Jones yn cyflwyno eu meibion Tomos a Lewis i'w bedyddio. Bydd Mr Thomas I. Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 2.00. (*SYLWER AR Y NEWID AMSER I'R DDWY OEDFA*) Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30, a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore am 10.00 yn Llanfair.

Llansannan

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

Sul nesaf Bydd Andras Iago yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

Sul nesaf Bydd Dr Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.